



Pennaeth/Head Teacher: Mrs Joyce George
E-bost/Email: j.george@pontrhydfendigaid.ceredigion.sch.uk

Ysgol Pontrhydfendigaid

Ystrad Meurig
Tregaron
SY25 6AZ
01974 831641

Pennaeth Cynorthwyol: Mrs Carys Davies

Ysgol Mynach

Pontarfynach
Aberystwyth
SY23 4QZ
01970 890234

Pennaeth Cynorthwyol: Mrs Bethan James

Ysgol Syr John Rhys

Ponterwyd
Aberystwyth
SY23 3JX
01970 890622

Pennaeth Cynorthwyol: Mrs Caryl Jones

04/09/26

Annwyl Rieni a Gwarcheidwaid,

Croeso cynnes iawn yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau'r haf. Gobeithio eich bod i gyd wedi cael gwyliau pleserus a hamddenol a'ch bod yn edrych ymlaen at y tymor newydd sydd o'n blaenau.

Rydym yn falch iawn o groesawu pedwar disgybl newydd i Ysgol Mynach y tymor hwn: Nico a Lleucu Penfold, Akira Bruce ac Eira Clarke. Maent i gyd wedi ymuno â'r dosbarth Derbyn, a dymunwn yn dda iddynt. Rwy'n siŵr y byddant yn ymgartrefu'n gyflym ac yn teimlo'n gartrefol iawn.

Rydym hefyd yn estyn croeso cynnes iawn i'w teuluoedd – rydym mor falch o'ch cael yn rhan o'n cymuned ysgol, a gobeithio y byddwch yn hapus iawn gyda ni.

Rydym hefyd yn falch iawn o groesawu Lindsay Jenkins, sydd wedi ymuno â ni fel Cynorthwydd Addysgu rhan-amser. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Lindsay ac rydym yn gwybod y bydd yn ychwanegiad gwych i'n tîm ysgol.

Dyddiadau Pwysig ar gyfer Eich Calendr

Nodwch y dyddiadau canlynol yn eich calendr os gwelwch yn dda. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am bob digwyddiad yr wythnos nesaf.

11/09/26 – Canolfan Weithgareddau Llain - Bydd Blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn ymweld â Chanolfan Weithgareddau Llain ynghyd â disgyblion o Ysgol Syr John Rhys.

- Darperir pecyn bwyd.
- Cost yr ymweliad fydd £10.

16/09/26 – Diwrnod Owain Glyndŵr - I ddathlu Diwrnod Owain Glyndŵr, mae croeso i ddisgyblion wisgo fel brenin, brenhines neu farchog, neu wisgo coch a melyn, sef y lliwiau sy'n gysylltiedig â baner Owain Glyndŵr. Edrychwn ymlaen at ddiwrnod hwyliog a chyffrous yn dathlu'r rhan bwysig hon o hanes Cymru.

18/09/26 (bore) – Ymweliad â Nant y Moch (bore) - Bydd y disgyblion yn ymweld â Nant y Moch fel rhan o'n dathliadau Owain Glyndŵr, yn dilyn Diwrnod Owain Glyndŵr ar 16 Medi. Darperir pecyn bwyd.

18/09/26 (prynhawn) – Gwersi Nofio - Bydd gwersi nofio yn dechrau yn y prynhawn i bob disgybl. Bydd y gwersi yn parhau bob dydd Gwener drwy gydol y tymor.

19/09/26 – Eisteddfod Cwmystwyth - Mae croeso i bob disgybl gymryd rhan yn yr Eisteddfod, ond gofynnwn yn garedig i chi drefnu cludiant. Byddwn yn ymarfer yr eitemau yn yr ysgol yr wythnos nesaf.

Gwybodaeth Bwysig

Bwyta'n Iach - Rydym yn annog pob disgybl i ddod â ffrwythau neu lysiau i'r ysgol bob dydd. Mae'r sesiwn foreol yn eithaf hir, yn enwedig gan fod nifer o'r disgyblion yn yr ysgol erbyn 8:00yb. Sicrhewch fod gan eich plentyn ddarn o ffrwyth neu lysiau i'w fwyta fel byrbryd bore am 10:30yb.

Darllen - Mae pob plentyn wedi derbyn llyfrau darllen. Sicrhewch fod eich plentyn yn dod â'r llyfrau darllen i'r ysgol bob dydd ac yn eu gosod ar ei ddesg peth cyntaf yn y bore, yn barod ar gyfer ei sesiynau darllen (Cyfnod Allweddol 2).

Rydym yn eich annog yn gryf i ddarllen gyda'ch plentyn bob nos, os yn bosibl. Mae darllen yn rheolaidd gartref yn ffordd wych o gefnogi cynnydd, hyder a mwynhad eich plentyn o ddarllen.

Gwaith Cartref - Bydd gwaith cartref yn cael ei roi unwaith yr wythnos. Bydd gwybodaeth am y dyddiau y bydd gwaith cartref yn cael ei roi allan a'i ddychwelyd yn cael ei nodi yn llyfr gwaith cartref eich plentyn.

Cefnogwch ac anogwch eich plentyn gyda'i waith cartref gymaint â phosibl. Mae eich cyfraniad a'ch anogaeth yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Tocyn Cinio - Os nad yw eich plentyn yn cael cinio ysgol, a wnewch chi sicrhau bod ganddynt becyn iach a chytbwys bob dydd. Gall plant ddod â chacen fach, bisged neu far grawnfwyd. Fodd bynnag, peidiwch â chynnwys melysion na bariau siocled os gwelwch yn dda. Diolch am eich cefnogaeth i'n helpu i annog arferion bwyta iach.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, anfonwch e-bost ataf: georgea59@hwb.cymru.net, a byddaf yn gwneud fy ngorau i ymateb cyn gynted â phosibl.

Edrychwn ymlaen yn fawr at y tymor sydd o'n blaenau ac at flwyddyn lwyddiannus gyda'n gilydd. Diolch am eich cefnogaeth barhaus ac am weithio mewn partneriaeth i sicrhau'r gorau posibl i'n disgyblion.

Yr eiddoch yn gywir,

Joyce George

01970 890234 / 07813 274539